

Canllaw i Grynodedb o  
adroddiad y  
**Rhaglen Archwilio  
Newydd-enedigol  
Genedlaethol**  
ar ddata 2025

**NNAP**  
National Neonatal  
Audit Programme

# Gofal eich baban

Mesur safonau a gwella gofal newydd-enedigol

Hydref 2026



Roedd croen wrth groen a dal Isla allan o'i chrud mor bwysig i ni  
i gyd. Fe wnaethom hyd yn oed lwyddo i nodi rhai cerrig milltir  
wrth wneud hynny.

Llun trwy garedigrwydd Morag McInnes

**RCPCH**  
Royal College of  
Paediatrics and Child Health  
*Leading the way in Children's Health*

**RCPCH Audits**



Mae taith Keon wedi'n dysgu fod stori pob baban yn unigryw. Fel rhieni, rydym wedi wynebu heriau na wnaethom erioed eu disgwyl, ond rydym hefyd wedi dathlu pob un mân lwyddiant. Gall rhannu ein profiad a gweld Keon yn cael ei gynrychioli helpu i deuluoedd eraill deimlo'n llai unig ar eu taith hwythau.

**Llun trwy garedigrwydd Omolabake Olabisi Faith**



Dadi'n darllen i mi tra 'mod i'n derbyn budesonide.

**Llun trwy garedigrwydd  
Leighsa Boyd-Roarty**



Rhan galetaf NICU oedd na allwn gymryd ei phoen ymaith, ond roedd bod yno i'w chysuro trwy bob caniwla, bob tro y tynnwyd hylif o'r meingefn neu gael archwiliad llygad, ac ar ôl pob triniaeth yn golygu na fu'n rhaid iddi wynebu dim ar ei phen ei hun. Gwyddwn yn fy nghalon fod hyn mor bwysig i'n hadferiad fel teulu.

**Llun trwy garedigrwydd April Lyon**

# Cynnwys

|                                                                  |          |
|------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Beth yw gofal newydd-enedigol?</b>                            | <b>4</b> |
| <b>Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newydd-enedigol Genedlaethol?</b> | <b>5</b> |
| <b>Ar ba feysydd gofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio?</b>         | <b>7</b> |

|                                   |          |
|-----------------------------------|----------|
| <b>1: Partneriaeth mewn gofal</b> | <b>8</b> |
|-----------------------------------|----------|

|                                                                     |    |
|---------------------------------------------------------------------|----|
| Ymgynghori â rhieni o fewn 24 awr o dderbynn                        | 8  |
| Cynnwys rhieni mewn rowndiau ward meddygon ymgynghorol              | 9  |
| Bwydo â llaeth y fron trwy gydol arhosiad mewn uned newydd-enedigol | 10 |
| Dilyniant meddygol yn ddwyflwydd oed                                | 11 |
| Nysio newydd-enedigol                                               | 13 |

|                          |           |
|--------------------------|-----------|
| <b>2: Prosesau gofal</b> | <b>14</b> |
|--------------------------|-----------|

|                                      |    |
|--------------------------------------|----|
| Steroidau cynenedigol                | 14 |
| Magnesiwm sylffad cynenedigol        | 14 |
| Geni mewn canolfan gydag NICU        | 15 |
| Oedi cyn clampio'r cortyn            | 15 |
| Tymheredd adeg derbyn                | 16 |
| Bwyd â llaeth y fron erbyn diwrnod 2 | 17 |
| Cefnogaeth anymyrrol i anadlu        | 18 |
| Sgrinio mewn pryd am ROP             | 19 |

|                                             |           |
|---------------------------------------------|-----------|
| <b>3: Deilliannau gofal newydd-enedigol</b> | <b>20</b> |
|---------------------------------------------|-----------|

|                                           |    |
|-------------------------------------------|----|
| Marwolaeth                                | 20 |
| Dysplasia broncoysgyfeiniol               | 20 |
| Enterocolitis necroteiddiol               | 21 |
| Heintiad yn y ffrwd waed                  | 21 |
| Anaf cynamserol i'r ymennydd (IVH a cPVL) | 22 |

|                                                |           |
|------------------------------------------------|-----------|
| <b>Cydraddoldeb mewn gofal newydd-enedigol</b> | <b>23</b> |
|------------------------------------------------|-----------|

|                                   |           |
|-----------------------------------|-----------|
| <b>Canlyniadau NNAP eich uned</b> | <b>25</b> |
|-----------------------------------|-----------|

|                                 |           |
|---------------------------------|-----------|
| <b>Pwy sy'n cefnogi'r NNAP?</b> | <b>26</b> |
|---------------------------------|-----------|

|                                     |           |
|-------------------------------------|-----------|
| <b>Beth allwch chi wneud nesaf?</b> | <b>27</b> |
|-------------------------------------|-----------|

|               |           |
|---------------|-----------|
| <b>Geirfa</b> | <b>28</b> |
|---------------|-----------|

|                    |           |
|--------------------|-----------|
| <b>Cyfeiriadau</b> | <b>29</b> |
|--------------------|-----------|

## Nodyn am derminoleg:


Yn y canllaw hwn drwyddo draw, defnyddir y term 'mam'. Fodd bynnag, nid yn unig pobl sy'n uniaethu eu hunain fel menywod all fod eisiau mynd at y daflen hon. Dylai eich gofal gael ei bersonoli, fod yn gynhwysol ac yn sensitif i'ch anghenion beth bynnag yw eich hunaniaeth o ran rhywedd. Defnyddir 'Eich Baban' yn y canllaw er mwyn bod yn gryno, ond rydym yn cydnabod y gall fod gan eich teulu nifer o fabanod sy'n derbyn gofal newydd-enedigol.

# Beth yw gofal newydd-enedigol?

Bydd angen derbyn tua **1 o bob 11** baban i uned newydd-enedigol am eu bod wedi eu geni'n gynnar, gyda phwysau geni isel, neu eu bod yn wael ac angen gofal a thriniaeth arbenigol.

Efallai y bydd ar eich baban angen help gydag anadlu neu fwydo. Weithiau, gall babanod fod â

heintiad neu gyflyrau meddygol eraill fydd angen triniaeth. Gall eich baban aros ar uned newydd-enedigol am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion. Cewch eich annog a'ch cefnogi i gymryd rhan weithredol yn eu gofal cyn gynted ag y byddwch yn barod i wneud hynny.



## Derbyn i unedau newydd-enedigol

Mae tua **1 o bob 11** (neu 58,558 o 631,166) o fabanod a enir yn Lloegr, yr Alban a Chymru bob blwyddyn angen gofal newydd-enedigol arbenigol mewn ysbty.

# Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newydd-enedigol Genedlaethol?

**Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ansawdd y gofal a ddarperir gan unedau newydd-enedigol er mwyn gwella deilliannau a gofal i bob baban a'u teuluoedd. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn gwneud hyn trwy'r Rhaglen Archwilio Newydd-enedigol Genedlaethol (NNAP).**

Mae'r NNAP yn helpu unedau newydd-enedigol i roi gwell gofal i fabanod sydd angen triniaeth arbenigol.

## Byddwn yn edrych am y canlynol:

- A yw babanod yn derbyn gofal cyson o ansawdd uchel.
- A gafodd babanod y gwiriadau iechyd a argymhellir i leihau'r risg o gymhlethdodau.
- Pa mor dda mae babanod yn gwneud yn dilyn y gofal hwn.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am ofal eich baban i helpu unedau newydd-enedigol yn Lloegr, yr Alban, Cymru ac Ynys Manaw i **wella'r gofal a'r deilliannau i fabanod eraill.**

I helpu gyda hyn, byddwn yn casglu gwybodaeth am fabanod sy'n derbyn gofal newydd-enedigol.

Bydd staff unedau newydd-enedigol yn rhoi gwybodaeth eich baban ar system gofnodi electronig ddiogel o'r enw BadgerNet. Mae pob uned newydd-enedigol yn rhannu gwybodaeth o'r cofnodion electronig hyn gyda thîm prosiect yr NNAP yn yr RCPCH, trwy brosesydd arall, System C, sy'n rheoli system BadgerNet.

## Dewch i wybod mwy



I ddarganfod mwy am yr archwiliad, sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon, ac am eich hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd:

<https://www.rcpch.ac.uk/about-us/privacy-hub/NNAP>

neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn

**NNAP**  
National Neonatal  
Audit Programme



Ganed Aman wedi dim ond 24 wythnos. Dyma un o'n munudau croen-i-groen gwerthfawr, ond chefais i ddim cydio ynddo fel hyn tan 20 diwrnod a mwy wedi ei eni. Roedd mor wael, mor fach, ac mor fregus.

Roedd eiliadau fel hyn yn golygu popeth

**Llun trwy garedigrwydd**  
**Zainab Yunus**



Fi a fy merch Rosalie a aned wedi 34 wythnos. Ar gefnogaeth anadlu Optiflow ac yn cael ein cyswllt croen-i-groen cyntaf wedi toriad Cesaraidd.

**Llun trwy garedigrwydd**  
**Bethany Cooper**



# Ar ba feysydd gofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio?

**Mae data'r NNAP yn ymdrin â thair ffrwd waith o ofal am fabanod cynamserol a sâl, pob un â chwestiynau am pa mor dda mae gofal yn cael ei roi.**

.....

Dyma'r ffyrddiau gwaith hyn:

- Partneriaeth mewn gofal
- Prosesau gofal
- Deilliannau gofal newydd-enedigol

Dewiswyd y rhain gan grŵp o arbenigwyr mewn gofal newydd-enedigol, oedd yn cynnwys nyrsys, meddygon a rhieni gyda phrofiad o ofal newydd-enedigol. Mae'r NNAP yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni sydd â phrofiad o ofal newydd-enedigol i fyfrio am y mesurau hyn.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio mwy am y tair ffrwd gofal ac yn dangos pa mor dda y mae unedau'n gwneud ledled Lloegr, yr Alban, Cymru ac Ynys Manaw o ran pob un o fesurau'r archwiliad. Mae hefyd yn esbonio beth y gallwch chi wneud nesaf os oes gennych faban mewn gofal newydd-enedigol.

## Darganfod mwy

.....

Os ydych am wybod mwy am sut mae uned newydd-enedigol benodol yn gwneud, ewch at: <https://www.rcpch.ac.uk/resources/NNAP-dashboards> neu sganiwch y cod QR:




Cefais ddal Edie am y tro cyntaf wedi 3 diwrnod. Roeddwn yn rhy ofnus a phryderus i'w chyffwrdd i ddechrau am ei bod mor fechan. Y 24 diwrnod y gwnaethon ni dreulio yn yr NICU oedd rhai caletaf fy mywyd. Rydw i mor ddiolchgar i bob un nyrs a meddyg a'i cadwodd hi'n ddiogel.

**Llun trwy garedigrwydd  
Kayleigh Russell**



Yr oedd cerrig milltir cyntaf Isla oll ar yr NICU. Cafodd ei bath cyntaf ei hwyluso gan un o'r therapyddion galwedigaethol, ac yr oedd yn funud o fondio i Isla a Dadi. Rhydd o'r gwifrau am ychydig funudau gwerthfawr.

**Llun trwy garedigrwydd  
Morag McInnes**



# 1. Partneriaeth mewn gofal

Mae'r ffrwd waith hon yn yr archwiliad yn canolbwyntio ar y modd y gall timau sy'n gofalu am fabanod weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd babanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.

## Ymgynghori â rhieni ymhen 24 awr

Mae'n bwysig fod teuluoedd yn deall am ofal eu baban/babanod a'u bod yn rhan ohono. Gall dwyn rhieni i mewn i ofal ymarferol a gwneud penderfyniadau wella deilliannau i fabanod. Mae'r NNAP yn edrych i weld a wnaeth uwch-aelod o'r tîm newydd-enedigol siarad â'r rhieni o fewn y 24 awr cyntaf i'w baban gael ei dderbyn.

Mae'r ymgynghoriad cyntaf yn gyfle i'r rhieni ffurfio perthynas ag uwch-aelod o'r tîm gofal. Gall rhieni holi cwestiynau a rhannu pryderon. Gall yr aelod o'r tîm ddod i wybod am y teulu a'u hanghenion a'u dewisiadau.



### Ymgynghori ymhen 24 awr

Derbyniodd **94.5%** o rieni ymgynghoriad wedi ei ddogfennu gydag uwch-aelod o'r tîm newydd-enedigol o fewn 24 awr o dderbyn i'r uned.

## Beth allwch chi wneud?

Os ydych yn teimlo na chawsoch ymgynghoriad cynnar gydag aelod o'r tîm newydd-enedigol, gallwch ofyn i nyrs eich baban drefnu un. Yn y cyfarfod hwn, gallwch holi sut y gallwch weithio mewn partneriaeth gyda'r tîm newydd-enedigol i ofalu am eich baban.


Cofiwch, gallwch ofyn am gyfarfod gydag uwch-aelod o'r tîm newydd-enedigol ar **unrhyw adeg**. Gallwch ofyn am hyn hyd yn oed os cawsoch un ymhen 24 awr o dderbyn eich baban i'r uned newydd-enedigol.



## Cynnwys rhieni mewn rowndiau ward meddygon ymgynghorol

Gall gofal newydd-enedigol fod yn straen i fabanod a rhieni. Mae'n bwysig fod teuluoedd yn deall am ofal eu baban a'u bod yn rhan ohono, gan y gall hyn wella deilliannau i fabanod.

Mae rowndiau ward yn digwydd yn rheolaidd ar unedau newydd-enedigol. Gall cynnwys rhieni ynddynt helpu i ddatblygu partneriaeth mewn cynllunio gofal rhwng y rhieni a'r tîm newydd-enedigol.



### Cynnwys rhieni ar rowndiau ward meddygon ymgynghorol

Mae'r NNAP yn edrych i weld a oedd rhiant yn rhan o'r rownd ward ar gyfer pob diwrnod o arhosiad baban. Yn gyffredinol, adroddwyd am hyn am **38%** o ddyddiau gofal am faban.



### Beth allwch chi wneud?

Bydd eich tîm newydd-enedigol yn rhoi gwybod i chi pryd mae'r rowndiau ward dyddiol yn digwydd fel arfer. Os bydd yn anodd i chi ymuno, gallwch ofyn i aelod o'r tîm newydd-enedigol gyflwyno neu rannu gwybodaeth benodol am eich baban yn ystod rown y ward, a gofyn iddynt eich diweddarw wedi i hyn ddigwydd.



Pan fydd eich baban yng nghanol gwifrau, peiriannu a chyfarpar meddygol, gall deimlo fel bod pawb yn arall yn gwybod yn well na chi sut i ofalu amdano. Ond mae munudau fel hyn yn eich atgoffa mai, wedi'r cyfan eich baban chi yw, a'ch bod yn yr union le iawn.

**Llun trwy garedigrwydd David a Hannah Omoyeni**

## Bwydo â laeth y fron trwy gydol arhosiad mewn uned newydd-enedigol

Mae pob baban yn elwa o laeth ei fam ei hun oherwydd

- mae'n haws i'w dreulio
- mae'n eu helpu i dyfu
- ac yn eu gwarchod rhag heintiau.

Mae'n bwysig fod staff ar yr uned newydd-enedigol

- yn rhoi cefnogaeth ymarferol i chi neu eich partner i'ch helpu i odro llaeth
- yn rhoi cefnogaeth i fwydo o'r fron
- yn helpu i sefydlu trefn o fwydo yn barod erbyn i chi ddychwelyd adref.

Mae'r NNP yn adrodd am nifer y babanod a aned yn gynamserol ac sy'n derbyn rhywfaint o laeth eu mam ar 14eg diwrnod eu bywyd, a phan fyddant yn gadael yr uned newydd-enedigol.

?

### Beth allwch chi wneud?

Dylai staff yn eich uned newydd-enedigol roi gwybodaeth i chi am laeth y fron, eich cefnogi i odro llaeth ac i fwydo o'r fron a rhoi cyngor am fudiadau eraill sy'n cynnig cymorth. Os ydych yn cael trafferth godro llaeth neu fwydo o'r fron, neu os oes gennych gwestiynau neu bryderon, holwch nyrs eich baban a all eich cefnogi neu eich rhoi mewn cysylltiad â chefnogaeth ychwanegol.

YMHEN  
**14**  
DIWRNOD

**81.8%**



#### Bwydo â laeth y fron ar 14eg diwrnod o fywyd

Derbyniodd **81.8%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd laeth eu mam ar 14eg diwrnod eu bywyd.

ADEG  
GADAEL

**70.7%**



#### Bwydo â laeth y fron adeg gadael


Derbyniodd **70.7%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd laeth eu mam adeg gadael yr uned.

## Dilyniant meddygol yn ddwyflwydd oed

Mae canllaw cenedlaethol sy'n dweud wrth wasanaethau newydd-enedigol pryd a sut y bydd pediatriydd neu neonatolegydd (meddygon arbenigol sydd wedi eu hyfforddi i ofalu am blant a babanod) yn gwirio datblygiad babanod wedi iddynt adael yr uned newydd-enedigol. Gwiriad dwy-flynedd yw'r enw am hyn ac y mae ar gyfer babanod a aned wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd.

Mae'r NNAP yn edrych i weld a oes ymgynghoriad dilynol a ddogfennwyd yn ddwyflwydd oed i fabanod a aned lai na 30 wythnos o oedran cyfnod cario.

Mae babanod a enir yn gymamserol yn fwy tebygol o gael problemau datblygiadol na born a enir wedi'r cyfnod llawn. Mae'n bwysig fod y sawl sy'n gofalu am fabanod cymamserol yn gwybod sut mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt brifio, fel y gellir gosod unrhyw gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol ar waith.



### Beth allwch chi wneud?

Mae mynd i'r holl apwyntiadau dilynol yn golygu y cewch dawelwch meddwl am sut mae eich baban yn datblygu a chael unrhyw gefnogaeth y gall fod ar eich baban ei angen. Os na chawsoch wybodaeth am apwyntiadau dilynol, gallwch wirio gyda'ch uned newydd-enedigol.

### Dilyniant yn ddwyflwydd oed

Derbyniodd **80.5%** o fabanod a aned lai na 30 wythnos o oedran cyfnod cario ddilyniant meddygol pan oeddent yn ddwyflwydd oed wedi ei gywiro i oed y cyfnod cario (18-30 mis o ystod oedran derbynion o ran y cyfnod cario cywir).



Dyma fy merch daughter, Zoe, yn cael ei dal gan fy merch hynaf, Melissa, oedd hefyd yn faban NICU wedi ei geni'n gynnar wedi 35 wythnos. Mae'n chwaer fawr ryfeddol.



Dyma Melissa a Zoe nawr – maent yn ffrindiau gorau. Mae Melissa bellach yn 7 oed a Zoe yn 22 mis. Mae gan y ddwy ferch broblemau iechyd, ond hwy yw'r merched hyfrytaf, mwyaf creadigol a charedig.

Lluniau trwy garedigrwydd Alicia Hughes



Cael ei ddal gan dadi am y tro cyntaf ar yr uned.



Freddie yn ddwyflwydd oed, wedi tyfu'n fachgen mawr.

Lluniau trwy garedigrwydd Hannah Jones a Daniel John


# Staffio nyrsus newydd-enedigol

Mae bod â digon o nyrsys gofal newydd-enedigol i ofalu am fabanod ar yr uned newydd-enedigol yn wirioneddol bwysig er mwyn gwneud yn siŵr o'r canlynol:

- fod ansawdd y gofal yn uchel,
- y bydd cefnogaeth ar gael i rieni,
- fod deilliannau i fabanod yn dda.

Mae canllawiau cenedlaethol<sup>2,3,4</sup> sy'n gosod allan faint o nyrsys sydd eu hangen ar gyfer pob shift. Mae hyn yn dibynnu ar nifer y babanod sy'n derbyn gofal a pha mor gymhleth yw anghenion y babanod hynny.

Mae'r NNAP yn adrodd am sawl shift sydd a digon o nyrsys i ofalu am y babanod yn yr uned newydd-enedigol, ar sail y canllawiau hyn.



## 2. Prosesau gofal


Mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar ymyriadau cyn, yn ystod ac yn syth wedi geni a all wella deilliannau i fabanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.

### Steroidau cynenedigol

Mae canllaw<sup>5</sup> yn argymhell y dylai mamau sy'n esgor ar faban wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd dderbyn cwrs llawn o steroidau cynenedigol am 24 awr yn yr wythnos cyn iddynt esgor. Mae hyn er mwyn cefnogi datblygiad ysgyfaint eu babanod.

Mae steroidau cynenedigol yn helpu i leihau anawsterau anadlu. Gallant hefyd leihau'r risg o farwolaeth a phroblemau difrifol eraill, megis gwaedu i'r ymennydd.

50.3%



#### Steroidau cynenedigol

Cafodd **50.3%** o famau babanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd gwrw llawn o steroidau cynenedigol yn yr wythnos cyn esgor.

### Magnesiwm sylffad cynenedigol



88.3%

#### Magnesiwm sylffad cynenedigol

**88.3%** o famau babanod a aned wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd a gafodd magnesiwm sylffad cynenedigol yn y 24 awr cyn esgor.

Mae rhoi magnesiwm sylffad i fenywod sydd mewn perygl o roi genedigaeth i faban wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd yn lleihau'r siawns y bydd eu baban yn datblygu parlys yr ymennydd o 32%. Mae parlys yr ymennydd yn gyflwr sy'n para oes ac yn effeithio ar symud a chydgyrdio.

Mae canllaw<sup>5</sup> yn argymhell y dylid rhoi magnesiwm sylffad i bob mam sy'n esgor ar faban wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd o fewn y 24 awr cyn geni eu baban.

## Geni mewn canolfan gydag NICU


Mae babanod a aned wedi llai na 27 wythnos o feichiogrwydd yn wynebu risg uwch o gymhlethdodau difrifol, fel

- anaf i'r ymennydd
- dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD) a elwir hefyd yn glefyd cronig yr ysgyfaint
- enterocolitis necroteiddiol (NEC).

Felly, dylai'r babanod hyn gael eu geni mewn ysbyty gydag uned gofal dwys newydd-enedigol (NICU).

Mae NICU yn rhoi'r lefel uchaf o ofal a hwysydd yn y sefyllfa orau i ofalu am y babanod hyn. Awgryma tystiolaeth fod babanod a anwyd wedi llai na 27 wythnos o feichiogrwydd yn cael deilliannau gwell petaent yn derbyn gofal mewn NICU o adeg eu geni.


83.4%



### Geni mewn canolfan gydag NICU

Cafodd **83.4%** o fabanod a aned wedi llai na 27 wythnos o feichiogrwydd neu'n pwyso dan 800 gram neu a aned fel un o enedigaeth luosog wedi llai na 28 wythnos o feichiogrwydd, eu geni mewn gwasanaeth mamolaeth ar yr un safle ag NICU unswydd.

## Oedi cyn clampio'r cortyn



### Oedi cyn clampio'r cortyn

Cafodd **76.8%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o oedran cyfnod cario llyn y bogel wedi ei glampio un funud neu fwy wedi'r enedigaeth.

Mae oedi cyn clampio'r cortyn yn golygu aros am o leiaf 60 eiliad wedi'r enedigaeth cyn clampio llinyn y bogel. Dengys ymchwil fod gwneud hyn yn lleihau'r risg o farwolaeth mewn babanod cynamserol o bron i draean<sup>6</sup>.


Gellir oedi cyn clampio'r cortyn gyda'r rhan fwyaf o fabanod. Dyma'r dewis gorau, hyd yn oed os oes ar eich baban angen help i anadlu. Dan rai amgylchiadau prin, nid yw'n briodol.

## Tymheredd adeg derbyn

Mae babanod a enir wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ac sydd â tymheredd isel adeg derbyn i uned newydd-enedigol, mewn mwy o risg o salwch a marwolaeth. Mae tymheredd isel (neu hypothermia) yn gyflwr y mae modd ei atal mewn babanod newydd-anedig.

Mae'r mesur hwn gan yr NNAP yn edrych i weld pa mor llwyddiannus y mae unedau newydd-enedigol o ran gwneud yn siŵr fod gan fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ddarlleniad tymheredd cyntaf normal. Dylai hyn fod rhwng 36.5 a 37.5°C o fewn awr o'r enedigaeth.

**80.4%**  
36.5–37.5°C



### Tymheredd adeg derbyn

Yr oedd gan **80.4%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd dymheredd cyntaf adeg derbyn sydd rhwng 36.5–37.5°C ac a fesurwyd o fewn awr i'r enedigaeth.



Ganed trwy doriad Cesaiaidd wedi 33 wythnos.  
Diwrnod cyntaf ei fywyd.

**Llun trwy garedigrwydd Sasha Hodnett**



Ganed Leonidas wedi 24 wythnos ac 1 diwrnod, a threuliodd 127 diwrnod yn yr ysbyty. Dyma'r tro cyntaf i mi afael yn Leonidas.

**Llun trwy garedigrwydd  
Lenuta Papadopol**

## Bwydo â llaeth y fron yn 2 ddiwrnod cyntaf bywyd

Mae llaeth cynnar y fron, a elwir yn colostrwm, yn llesol i iechyd babanod a gall hefyd helpu i sefydlu bwydo o'r fron yn y tymor hwy.

Efallai na fydd babanod a aned yn gynamserol neu'n sâl yn barod i gael eu bwydo o fron eu mam yn syth. Mae mamau'n cael eu hannog a'u cefnogi i odro llaeth i'w baban o fewn yr ychydig oriau wedi'r geni. Mae modd defnyddio'r llaeth hwn ar gyfer gofal y geg neu ei roi trwy diwb bwydo. Mae'n bwysig fod gwasanaethau newydd-enedigol yn rhoi'r gefnogaeth iawn i deuluoedd ar yr adeg iawn.

Fel rhan o sawl mesur sy'n edrych ar y gofal a roddir i famau a babanod cyn, yn ystod ac yn syth wedi esgor, mae'r NNAP yn adrodd am faint o fabanod sy'n derbyn unrhyw faint o llaeth eu mam o fewn deuddydd cyntaf eu hoes.

YMHEN  
**2**  
DDIWRNOD

**73.5%**



### Bwydo â llaeth y fron yn ystod 2 ddiwrnod cyntaf bywyd

Derbyniodd **73.5%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd llaeth eu mam yn ystod 2 ddiwrnod cyntaf eu bywyd.



Bwydo trwy diwb gan ddefnyddio llaeth fy mron wedi'i odro.

**Llun trwy garedigrwydd Jessica Haywood a Timothy Robinson**



Dyma fi (mam) yn bwydo Matilda am y tro cyntaf trwy via a chwistrell. Yna cafodd ei bwydo trwy diwb, gan iddi gael ei geni wedi 35 wythnos ac nad oedd ganddi'r gallu i sugno.

**Llun trwy garedigrwydd Amelia Gauci a Jacob Dorman**

## Cefnogaeth anymyrrol i anadlu

Mae dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD) yn glefyd yr ysgyfaint sy'n effeithio ar fabanod a enir yn gynamserol. Gall awyru mecanyddol trwy diwb endotracheaidd gynyddu'r risg y bydd baban yn datblygu BPD.


Gall darparu cefnogaeth anymyrrol i anadlu, megis Pwysedd Positif Cyson ar y Llwybr Anadlu (CPAP) yn lle hynny leihau'r risg o BPD.

Mae'r NNAP yn edrych i weld faint o fabanod sy'n derbyn cefnogaeth anymyrrol i anadlu yn unig yn ystod saith diwrnod cyntaf eu bywyd.



Yr oedd Matilda ar CPAP am ddau ddiwrnod, allai hi ddim anadlu ar ei phen ei hun pan aned hi. Esboniodd nyrsus yr NICU sut mae popeth yn gweithio.

**Llun trwy garedigrwydd  
Amelia Gauci a Jacob Dorman**



### Cefnogaeth anymyrrol i anadlu

Derbyniodd **52.8%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd gefnogaeth anymyrrol i anadlu yn unig yn ystod saith diwrnod cyntaf eu bywyd.



Alla'i ddim anadlu ar fy mhen fy hun eto felly rydw i'n cael tipyn o help!

**Llun trwy garedigrwydd  
Evie Coleman**


## Retinopat heg cynamseroldeb

Cyflwr yw retinopat heg cynamseroldeb (ROP) sy'n effeithio ar bibellau gwaed yn y rhan o'r llygad a elwir y retina. Os genir baban lawer iawn cyn ei amser, gall y pibelli gwaed hyn ddechrau tyfu'n annormal, sy'n achosi ROP.

Gall canfod a thrin ROP cyn iddo fynd yn ddifrifol leihau'r risg o golli golwg.

Mae canllaw cenedlaethol<sup>7</sup> sy'n dweud wrth wasanaethau newydd-enedigol pa fabanod ddylai gael eu gwirio am ROP, a phryd y dylid sgrinio am y tro cyntaf.

Mae'r NNAP yn edrych i weld pa mor dda mae unedau newydd-enedigol yn gwneud o ran sgrinio'r babanod hyn ar yr amser iawn.



### Sgrinio am retinopat heg cynamseroldeb (ROP)

Sgriniwyd **84.4%** o fabanod a aned wedi llai na 31 wythnos o feichiogrwydd, neu oedd yn pwysu dan 1501g adeg eu geni, am y tro cyntaf am ROP yn ôl y canllaw.



## Beth allwch chi wneud?

Mae gan y nyrsus ar yr uned brofiad o baratoi babanod am yr archwiliad llygad, a'u cefnogi tra bydd yn digwydd. gallant esbonio sut maent yn gwneud hyn a byddant yn eich dwyn i mewn gymaint ag sydd modd.

Os dewiswch fod yn bresennol, efallai y gallwch gysuro eich baban cyn neu ar ôl yr archwiliad. Gall y nyrsus eich cyfarwyddo ar sut orau i wneud hyn. Bydd bod yn bresennol hefyd yn rhoi cyfle arall i chi holi unrhyw gwestiynau fydd gennych.


Gallwch ddod i wybod mwy trwy ddarllen y Wybodaeth Agrinio am Cynamseroldeb i Rien i a Gofalwyr, sydd ar gael yn: [www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-information-parents-carers](http://www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-information-parents-carers)

### 3. Deilliannau gofal newydd-enedigol

Mae'r ffrwd waith hon yn canoli ar rai o'r deilliannau meddygol a all ddigwydd i fabanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.

#### Marwolaeth


Er bod y niferoedd yn isel iawn, mae'n bwysig ein bod yn monitro'r gyfran o fabanod a dderbynnir i ofal newydd-enedigol ac sydd, gwaetha'r modd, yn marw cyn iddynt fynd adref. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau newydd-enedigol i adolygu nifer y babanod sy'n marw a beth achosodd y marwolaethau, gyda'r nod, trwy rannu gwersi ac weithiau newid arferion, o gael gostyngiad yn nifer y marwolaethau.



#### Marwolaeth

Bu **5.7%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ac a dderbyniwyd i ofal newydd-enedigol farw cyn eu rhyddhau neu 44 wythnos wedi oedran mislifol.

#### Dysplasia broncoysgyfeiniol Broncoysgyfeiniol (BPD)



#### Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD)



Datblygodd **40.5%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ddysplasia broncoysgyfeiniol(BPD) neu buont farw.

Mae ysgyfaint babanod a enir yn gynnar iawn yn aml heb ddatblygu digon, ac efallai y bydd arnynt angen help i anadlu.

Gall geni'n gynamserol arwain at heriau cyson o ran anadlu. Mae defnyddio peiriant anadlu yn hanfodol i gefnogi rhai babanod gyda'u hanadlu. Fodd bynnag, fe all hyn niweidio'r ysgyfaint a chynyddu'r risg o heintiadau ar y frest. Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD) yw'r enw ar y cyflwr hwn, ac y mae hefyd yn cael ei alw'n glefyd cronig yr ysgyfaint.

## Enterocolitis Necroteiddiol (NEC)

Mae enterocolitis necroteiddiol (NEC) yn gyflwr difrifol a all ddigwydd wedi geni cynamserol. Mae'n achosi llid yn y coluddyn, sydd yn ei gwneud yn anodd bwydo babanod â llaeth, ac weithiau bydd angen llawdriniaeth. Mae'n rhaid i fabanod gydag NEC yn aml aros yn yr ysbyty am gyfnod maith. Gwaetha'r modd, nid yw dros 20% o fabanod ag NEC yn goroesi, ac fe all y rhai sydd yn byw wynebu oedi datblygiadol a phroblemau tymor-hir gyda bwydo a gweithrediad y coluddyn.




Datblygodd **4.8%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd NEC

## Heintiad yn y ffrwd waed (BSI)

### Heintiad yn y ffrwd waed (BSI)

Cafodd **5.3%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd un neu fwy episod o BSI.



Mae babanod sy'n sâl neu sy'n cael eu geni'n gynamserol mewn mwy o berygl o gael heintiadau, hyd yn oed rhai nad ydynt fel arfer yn niweidio pobl iach. Gall yr heintiadau hyn olygu eu bod yn aros yn hwy yn yr uned newydd-enedigol, cynyddu'r risg o farwolaeth ac weithiau effeithio ar ddatblygiad tymor hir babanod.

I helpu i ostwng y risg o heintiad, mae'n hanfodol fod yr holl weithwyr iechyd proffesiynol, rhieni ac ymwelwyr yn dilyn arferion da o ran atal a rheoli heintiad ar yr uned newydd-enedigol.

## Anaf cynamserol i'r ymennydd (IVH a cPVL)

Gall babanod a enir wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd gael anaf i'r ymennydd, a achosir weithiau gan waedu. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, gan ddibynnu'n rhannol ar ddifrifoldeb yr anaf.


Mae'r NNAP yn adrodd am ddau fath o anaf i'r ymennydd - ffurfiau mwy difrifol o waedlif mewnfentriglaidd (IVH) a lewcomalacia cystig perifentriglaidd (cPVL).

Trwy ddeall faint o fabanod sy'n cael anaf i'r ymennydd, gall timau newydd-enedigol geisio gostwng y nifer.



### Anaf cynamserol i'r ymennydd - gwaedlif mewnfentriglaidd (IVH)

Cafodd **12.8%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd IVH graddau 3 neu 4, neu buont farw.



### Anaf cynamserol i'r ymennydd - lewcomalacia cystig perifentriglaidd (cPVL)

Cafodd **10%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd cPVL neu buont farw.



Izzy gyda'r octopws wedi'i grosio.  
**Llun trwy garedigrwydd**  
**Janie a Niall Byrne**

## Cydraddoldeb gofal newydd-enedigol

Roedd yr NNAP wedi edrych i weld a oedd unrhyw wahaniaethau yn y ffordd y gofelir am deuluoedd o wahanol ethnigrwydd.

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod a yw gofal a deilliannau yn wahanol rhwng grwpiau ethnig fel bod modd cymryd camau i wneud yn sicr fod pawb yn derbyn yr un gofal o safon uchel.



Yn bedair wythnos oed, yr oedd y garreg filltir hon yn golygu cymaint i ni. Yr oedd Keon newydd gael ei symud o'i grud cynnal i grud agored gyda gwres, oedd yn teimlo fel cam enfawr ymlaen. Dangosodd ein hamser mewn gofal newydd-enedigol i ni bwysigrwydd gofal tosturiol a medrus. Yr oedd pob gram a enillwyd a phob carreg filltir a gyrhaeddwyd yn teimlo fel buddugoliaeth go-iawn.

**Llun trwy garedigrwydd**  
**Omolabake Olabisi Faith**

I hyn ddigwydd, efallai y bydd angen gwneud newidiadau yn lleol gan ysbyty unigol, neu yn genedlaethol gan lywodraethau i fudiadau eraill.

Mae'r NNAP yn rhannu'r data gyda gwasanaethau newydd-enedigol fel y gallant weld a ydych yn rhoi gofal cyfartal yn eu hysbytai, neu a oes angen iddynt wneud newidiadau er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gydradd yn y dyfodol.



Dathlu llwyddiannau Isla, ac wrth ein boddau ein bod o'r diwedd yn gallu mynd â hir adref.

**Llun trwy garedigrwydd**  
**Morag McInnes**



Ein baban bychan bach Malcolm.  
Ganed wedi 30 wythnos a 3 diwrnod o  
feichiogrwydd ac yn derbyn CPAP ac yna  
ocsigen llif uchel.



Y Brawd Mawr Francis yn bwydo  
llaeth y fron wedi'i gyfoethogi  
trwy diwb. Roed d yr uned yn rhoi  
anogaeth gref i ymwneud gan  
deuluoedd.



Daeth Siôn Corn i ymweld â'r holl fabanod  
yn yr ysbyty. Daeth Malcolm allan o'r crud  
cynnal ac i'r crud agored ar Ddydd Nadolig



Malcolm nawr! 18 mis, yn cerdded  
ac yn parhau.

**Lluniau trwy garedigrwydd Bethany a Joshua Robinson**



## Pwy sy'n cefnogi'r NNAP?



Rydym yn falch fod amrywiaeth o fudiadau yn ein cefnogi. Mae mwy o fanylion isod.



Bliss yw'r elusen yn y DU sy'n gweithio i wneud yn sicr fod gan bob baban a enir yn gynamserol neu'n sâl yn y DU y cyfle gorau i oroesi a chael ansawdd bywyd da. Mae Bliss yn cefnogi'r Rhaglen Archwilio Newydd-enedigol Genedlaethol.

Am gefnogaeth a gwybodaeth, ewch at: [www.bliss.org.uk](http://www.bliss.org.uk)



British Association of  
Perinatal Medicine

Nod Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) yw gwella safonau gofal amenedigol trwy gefnogi pawb sy'n ymwneud â gofal amenedigol i wneud y mwyaf o'u sgiliau a'u gwybodaeth, cyflwyno arferion diogel ac arloesol o ansawdd uchel, cynnal ymchwil, a hyrwyddo anghenion babanod a'u teuluoedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch at:

[www.bapm.org](http://www.bapm.org)



Cymdeithas Nyrsus y Newydd-enedigol (NNA) yw'r mudiad cenedlaethol sy'n cynrychioli, yn cefnogi ac yn dathlu nyrsus y newydd-enedigol, yn gweithio i hyrwyddo nyrsio newydd-enedigol er lles babanod newydd-enedigol a'u teuluoedd ledled y wlad.

Am fwy o wybodaeth, ewch at: [www.nna.org.uk](http://www.nna.org.uk)



# Beth allwch chi wneud nesaf?

- Dewch i wybod mwy am ganlyniadau NNAP eich uned newydd-enedigol trwy fynd at erfyn adrodd yr NNAP Online yn: [www.rcpch.ac.uk/resources/nnap-online-report-data](http://www.rcpch.ac.uk/resources/nnap-online-report-data)
- Dysgwch fwy am yr hyn mae'r NNAP yn wneud a sut y defnyddir gwybodaeth am eich baban i gefnogi gwella trwy fynd at: <https://www.rcpch.ac.uk/work-we-do/clinical-audits/nnap>
- Holwch eich nyrs newydd-enedigol am fwy o wybodaeth am ganlyniadau NNAP eich uned a'u cynlluniau ar gyfer gwella.
- Holwch aelod o staff yr uned newydd-enedigol am gefnogaeth.

Hoffem ddiolch i'r holl rieni a gofawyr a rannodd eu siwrne mewn gofal newydd-enedigol gyda'r NNAP i'w cyhoeddi yn ein hadroddiadau. Hoffem estyn ein diolch hefyd i bob uned, rhwydwaith, a sefydliadau sy'n bartneriaid a gefnogodd ddatblygiad y canllaw hwn trwy annog teuluoedd i rannu eu storïau.

## Dewch i wybod mwy am yr NNAP



I wybod mwy am yr archwiliad, ewch at ein gwefan isod neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn.  
[www.rcpch.ac.uk/NNAP](http://www.rcpch.ac.uk/NNAP)

I weld sut yr ydym yn defnyddio gwybodaeth am eich baban ac am eich hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn:  
<https://www.rcpch.ac.uk/about-us/privacy-hub/NNAP>

## Adnoddau ychwanegol ar gael trwy'r RCPCH

### RCPCH & US

Mae'r RCPCH & Us yn gweithio i sicrhau fod lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwneud gwahaniaeth mewn iechyd a gofal iechyd plant.

<https://www.rcpch.ac.uk/about-us/our-team/children-young-people-engagement-team>

### Medicines for Children – gwybodaeth i rieni a gofawyr

Mae ein gwefan yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy ac ymarferol i rieni a gofawyr am roi meddyginiaethau i'w plant - gyda mynediad am ddim at daflenni gwybodaeth am fwy na 200 o feddyginiaethau, fideos a newyddion.  
<https://www.rcpch.ac.uk/resources/medicines-for-children>

## Geirfa

**Anaf cynamserol i'r ymennydd** – Gall babanod sy'n cael eu geni yn gynnar iawn gael anaf i'r ymennydd, a achosir weithiau gan waedu. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, yn dibynnu'n rhannol ar pa mor ddrwg yw'r anaf. Mae'r NNAP yn adrodd am ddau fath o anaf i'r ymennydd - mathau mwy difrifol o waedlif mewnfentricwlaidd (IVH) a lewcomalacia cystig perifentricwlaidd (cPVL).

**Awyru** – Cefnogaeth fecanyddol i anadlu, i helpu'r baban i gael lefelau derbyniol o ocsigen a charbon deuocsid yn ei waed pan na all lwyddo i gyrraedd hyn. Mae sawl math o awyru gan gynnwys CPAP.

**Cynamserol** – Baban a aned cyn 37 wythnos o feichiogrwydd (40 wythnos yw'r tymor llawn).

**Cynenedigol** – Y cyfnod cyn geni sy'n ymwneud â beichiogrwydd neu'n gysylltiedig â hynny.

**Dysplasia Broncoysgyfeiniol (BPD)** – Cyflwr ar yr ysgyfaint sy'n effeithiol yn bennaf ar fabanod cynamserol. Mae'r NNAP yn diffinio baban fel un â BPD os yw angen cefnogaeth i anadlu neu ocsigen ychwanegol pan fydd wedi cyrraedd oedran cyfnod cario wedi'i gywiro o 36 wythnos. Gelwir BPD weithiau yn 'glefyd cronig yr ysgyfaint' (CLD).

**Enterocolitis necroteiddiol (NEC)** – Cyflwr difrifol a all ddigwydd wedi genedigaeth gynamserol. Mae'n achosi llid yn y coluddyn, sy'n ei gwneud yn anodd i fabanod gael eu bwydo â llaeth, ac weithiau fe fydd angen llawdriniaeth.

**Godro llaeth y fron** – Defnyddio pwmp,

dwyllo neu'r ddau i gael llaeth o fronnau'r fam. Gellir storio'r llaeth mewn oergell neu rewgell neu ei roi'n uniongyrchol i'r baban.

**Gwaedlif mewnfentricwlaidd (IVH)** – Gweler Anaf cynamserol i'r ymennydd.

**Lewcomalacia cystig perifentricwlaidd (cPVL)** – Gweler Anaf cynamserol i'r ymennydd.

**Magnesiwm sylffad cynenedigol** – Sylwedd sydd i'w gael yn naturiol yn y corff ond a roddir fel meddyginiaeth i fenywod sy'n esgor yn gynamserol, i leihau'r risg o barlys yr ymennydd.

**Newydd-enedigol** – Newydd-anedig, neu 28 diwrnod cyntaf bywyd.

**NICU** – Uned Gofal Dwys Newydd-enedigol – Lle mae babanod sydd angen y lefelau uchaf o ofal yn derbyn y gofal hwnnw.

**Oedi cyn clampio'r cortyn** – Aros am o leiaf 60 eiliad wedi esgor cyn clampio llinyn y bogel.

**Oedran cyfnod cario** – Gelwir nifer yr wythnosau y bu'r baban yn y groth yn gyfnod cario. Mae cael eich geni ar y cyfnod llawn yn golygu geni wedi 37 wythnos lawn yn y groth. Os genir baban cyn cyfnod cario o 37 wythnos, mae'n gynamserol.

**Pediatreg** – Y gangen o feddygaeth sy'n delio â phlant a'u hiechyd.

**Pwysedd positif cyson ar y llwybr anadlu (CPAP)** – weler Awyru.

**Retinopatheg cynamseroldeb (ROP)** – Difrod i gefn y llygad (retina) mewn babanod cynamserol a'r rhai a enir gyda

phwysau geni isel iawn. Nid ydym yn llawn ddeall ROP, ond y mae'n gysylltiedig â swm yr ocsigen yn y gwaed. Dylai babanod sydd â risg o hyn gael eu gwirio'n rheolaidd am arwyddion o ROP.

**Rowndiau ward** – Adolygiadau rheolaidd, wedi eu cynllunio, o'r holl fabanod mewn ward neu ardal, sy'n cynnwys y tîm cyfan sy'n gofalu am y cleifion hynny, yn aml yn y bore.

**Steroidau cynenedigol** – Meddyginiaeth a roddir i famau a all esgor yn gynnar er mwyn lleihau'r risg i'r baban o broblemau anadlu, gwaedu i'r ymennydd ac oedi datblygiadol.

## Cyfeiriadau

1. NICE guideline [NG72]. Developmental follow-up of children and young people born preterm. 2017. Ar gael yn: [www.nice.org.uk/guidance/ng72](http://www.nice.org.uk/guidance/ng72)
2. NHS England. Neonatal Critical Care Service Specification. 2016. Ar gael yn: [www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e08/](http://www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e08/)
3. Department of Health. Toolkit for high quality neonatal services. 2009. Ar gael yn: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20150518111742/http://www.nice.org.uk/proxy/?sourceUrl=http%3a%2f%2fwww.nice.org.uk%2fmedia%2f726%2f74%2fDHToolkit2009.pdf>
4. British Association of Perinatal Medicine. Service Standards for Hospitals Providing neonatal Care (3ydd argraffiad). 2010. Ar gael yn: [www.bapm.org/resources/32-service-standards-for-hospitals-providing-neonatal-care-3rd-edition-2010](http://www.bapm.org/resources/32-service-standards-for-hospitals-providing-neonatal-care-3rd-edition-2010)
5. NICE guideline [NG25]. Preterm labour and birth. Cyfoeswyd ddiwethaf: 10 Mehefin 2022. Ar gael yn: [www.nice.org.uk/guidance/ng25](http://www.nice.org.uk/guidance/ng25)
6. Fogarty, M. et al. Delayed vs early umbilical cord clamping for preterm infants: a systematic review and meta-analysis. Am J Obstet Gynecol. 2018 Ion;218(1):1-18.doi: 10.1016/j.ajog.2017.10.231. Ar gael yn: [pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29097178/](http://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29097178/)
7. Screening of retinopathy of prematurity (ROP) – clinical guideline Ar gael yn: [www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-rop-clinical-guideline](http://www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-rop-clinical-guideline)



Pan gyrhaeddodd Louie gyntaf i'r byd.



Yn wythnos oed, cwtsh am y tro cyntaf. Y ffordd orau i ddathlu Dydd Nadolig!



Ffisiotherapi yn yr ysbyty, paratoi i fynd adref.



Louie, bellach yn 6 mis oed

Lluniau trwy garedigrwydd Georgia Blackburn

# **NNAP**

**Rhaglen Archwilio  
Newydd-enedigol  
Genedlaethol**

Canllaw o Gynodeb o  
adroddiad y  
**Rhaglen Archwilio**  
**Newydd-enedigol**  
**Genedlaethol**  
am ddata 2025



**HQIP**

Healthcare Quality  
Improvement Partnership

Comisiynir y Rhaglen Archwilio Newydd-enedigol  
Genedlaethol gan Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal  
Iechyd (HQIP) a'i chyllido gan NHS England a Llywodraethau  
Cymru, yr Alban ac Ynys Manaw fel rhan o'r Archwiliad  
Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Deilliannau Cleifion.

[www.hqip.org.uk/national-programmes](http://www.hqip.org.uk/national-programmes)



**Royal College of  
Paediatrics and Child Health**

*Leading the way in Children's Health*

**Coleg Brenhinol Pediatreg  
ac Iechyd Plant**

5-11 Theobalds Road,  
Llundain, WC1X 8SH

© 2026 Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP)

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Ymgorfforwyd trwy Siarter Brenhinol a chofrestrwyd fel Elusen yng  
Nghymru a Lloegr: 1057744 ac yn yr Alban: SCO38299. Swyddfa Gofrestredig 5-11 Theobalds Road, Llundain WC1X  
8SH. Noddwraig EHB y Dywysoges Frenhinol.